

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

16 Mai 2018

Yn Bresennol: Mr AE Sangster (y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Mr A Archer, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd M Evans,
Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M
James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd A
Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.05pm)

1. Personol

Mynegodd yr Aelodau eu tristwch, eu cefnogaeth a'u cydymdeimlad â'r Cadeirydd, Mrs Hayward, y bu ei gŵr farw y diwrnod cynt. Gofynnwyd am i lythyr o gydymdeimlad gael ei anfon ati ar ran yr Awdurdod.

NODWYD.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd K Doolin, Mrs G Hayward, y Cynghorydd P Kidney a Dr RM Plummer.

3. Datgan Buddiannau

Dywedodd y Cynghorydd P Harries bod ganddo fuddiant rhagfarnus yn adroddiad 21/18 – Diweddariad ar waredu adeilad yr Awdurdod ar Stryd Hir, Trefdraeth, ond ychwanegodd bod y Pwyllgor Safonau wedi ei awdurdodi i siarad a phleidleisio ar y mater. Dywedodd Mrs J James bod ganddi fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn adroddiad 23/18 – Penodi Swyddog Diogelu Data.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fawrth 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fawrth 2018.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Caffi Castell Caeriw (Cofnod 14)

Dywedodd y Cynghorydd R Owens ei fod yntau a'r Cynghorydd P Baker, ynghyd ag Alan Hunt, Swyddog Mynediad Cyngor Sir Penfro, wedi cyfarfod â swyddogion yng Nghastell Caeriw yn gynharach yn yr wythnos i drafod y diffyg cyfleusterau toiled i'r anabl yn y caffi newydd arfaethedig. Barnai bod y diffyg darpariaeth hwn ar gyfer yr anabl yn annerbyniol ac yn



groes i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, er bod cyfleusterau i'r anabl ar gael gerllaw. Dywedodd bod swyddogion yn edrych ar yr opsiynau. Fodd bynnag, gan fod Rheoliadau Adeiladu eisoes wedi'u cymeradwyo, dywedodd na ellid gwneud rhyw lawer yn awr. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod yn gobeithio bod gwersi wedi'u dysgu ar gyfer y dyfodol ac y byddai cyfleoedd yn cael eu cymryd i ddarparu cyfleusterau ychwanegol petai'r sefyllfa yn codi.

NODWYD.

6. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd mai ymhlith y digwyddiadau a fynychwyd gan Mrs Hayward yn ddiweddar oedd cyfarfod gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd. Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r cyfarfod ganol mis Ebrill oedd yr ail mewn chwe mis, oedd yn ei farn ef, yn batrwm defnyddiol o ymgysylltu. Ymhlith y canlyniadau a ddeilliodd o'r cyfarfod hwn oedd diweddariad ar y Datganiad Polisi ar Dirweddau Dynodedig a gyhoeddwyd fel rhan o ddatganiad y Gweinidog i'r Senedd. Dywedodd y byddai hyn bellach yn ddatganiad blaenoriaeth fyddai'n cael ei gyhoeddi erbyn yr haf, ac na fyddai felly yn ddogfen fyddai'n destun ymgynghoriad; gobaith y swyddogion oedd y byddai hyn yn dod â rhywfaint o eglurder ynghylch disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Gwarchoddedig.

Roedd y Gweinidog hefyd wedi datgan ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw welliant yn y gostyngiad rhagamcanol o 5% mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael ar hyn. Y pwynt olaf i'w nodi oedd y cwestiwn o fasnacheiddio, gyda'r gwahoddiad i Awdurdodau ddysgu o brofiad Croeso Cymru a Cadw. Y bwriad oedd cwrdd â Chyfarwyddwr Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon newydd Llywodraeth Cymru er mwyn elwa o'i brofiad, ac yng ngoleuni sylwadau blaenorol yr Aelodau, bwriedir cynnal gweithdy ynglŷn â masnacheiddio i benderfynu ar y ffordd ymlaen i'r Awdurdod. Awgrymodd un Aelod y dylid gwahodd y Cyfarwyddwr i'r gweithdy, a chytunodd y Prif Weithredwr i geisio trefnu hynny. Ychwanegodd y byddai un o Ddirprwy Gyfarwyddwyr Croeso Cymru yn bresennol yn y gweithdy ar ymyrraeth pensaernïol ar gyfer Gogledd Sir Benfro fyddai'n digwydd ar ôl y cyfarfod, a'i obaith oedd y byddai'r Aelodau yn gallu aros ar gyfer hynny.

NODWYD.

7. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried neu er gwybodaeth:



- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 14 Mawrth ac ar 26 Mawrth 2018;
- (ii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018;
- (iii) Pwyllgor Personnel a gynhaliwyd ar 28 Mawrth ac ar 18 Ebrill 2018.

NODWYD.

8. Penodi Swyddog Monitro

Yn dilyn cyfweiliad gan y Pwyllgor Personél (*y cyfeirir ato yng Nghofnod 7 (iii)*), argymhellwyd penodi Mr Rhys Stephens yn Swyddog Monitro i'r Awdurdod o 21 Mai 2018.

Roedd yr Aelodau am gofnodi eu diolch i'r Dirprwy Swyddog Monitro dros dro am ei gwaith yn y cyfamser.

PENDERFYNWYD bod Mr Rhys Stephens yn cael ei benodi yn Swyddog Monitro i'r Awdurdod o 21 Mai 2018.

[Oherwydd presenoldeb aelodau'r cyhoedd oedd â diddordeb yn yr eitem hon, cytunodd y Cadeirydd i ddod â'r mater canlynol ymlaen yn yr agenda.]

9. Amrywio'r Gorchymyn Meysydd Parcio sydd eisoes mewn grym yn barod ar gyfer dechrau tymor codi tâl yn y meysydd parcio yn 2019

Dywedodd y Swyddog Ystadau bod yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Tachwedd 2017 wedi penderfynu cyflwyno nifer o ddarpariaethau yn barod ar gyfer dechrau tymor codi tâl yn y meysydd parcio yn 2019. Roedd hyn yn ymwneud â chyflwyno codi tâl ym meysydd parcio West Angle, Penalun, Amroth a Nolton Haven, ymestyn y cyfnod codi tâl o 5pm i 7pm, a chynyddu'r gyfradd ddyddiol ar gyfer parcio bysiau o £3 i £8.

Er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i'r penderfyniad, roedd gofyn amrywio'r Gorchymyn Meysydd Parcio sydd mewn grym ar hyn o bryd. Roedd drafft o'r Gorchymyn, a baratowyd gan swyddogion sy'n gweithio drwy ymgynghori â Chyngor Sir Penfro fel yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol, ynghlwm wrth yr adroddiad. Felly gofynnwyd am gymeradwyo'r Gorchymyn Amrywio fel y gallai Cyngor Sir Penfro ymgymryd â'r broses statudol angenrheidiol, oedd yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd.

Gofynnodd sawl Aelod am ddarpariaethau ar gyfer y trigolion, ac eglurodd y swyddog nad oedd yr Awdurdod yn gwahaniaethu rhwng trigolion ac ymwelwyr. Fodd bynnag roedd nifer o docynnau tymor ar gael ac roedd nifer dda wedi prynu'r tocynnau hyn. Roedd llawer o bobl hefyd wedi manteisio ar y tocynnau parcio am ddim am 30 munud, ac nid oedd hyn



wedi cael unrhyw effaith andwyol ar y refeniw yn gyffredinol. Byddai adroddiad ar berfformiad y meysydd parcio dros y tymor yn cael ei wneud fis Tachwedd. Roedd yr Aelodau yn dymuno sicrhau bod y trigolion sy'n byw yn y cymunedau lle roedd codi tâl yn y meysydd parcio yn cael ei gyflwyno yn ymwybodol bod tocynnau tymor ar gael, a chafwyd sicrwydd gan y swyddog bod y pwnc wedi codi yn ei drafodaethau gyda'r Cyngorau Cymuned perthnasol.

Yn olaf, dywedodd un Aelod ei fod wedi derbyn nifer o negeseuon e-bost ynglŷn â'r maes parcio yn West Angle oedd yn honni bod y maes parcio wedi'i roi gyda chyfamod oedd yn atal codi tâl. Eglurodd y swyddog bod yr Awdurdod wedi cael y maes parcio yn 1967, gyda chyfyngiad ar y defnydd o'r tir wedi'i gynnwys yn y trawsgludiad, ond nid oedd unrhyw gyfeiriad at delerau defnyddio'r maes parcio. Ychwanegodd bod pryderon wedi codi rai blynyddoedd yn ôl pan gafodd plac oedd yn cyfeirio at barcio ceir yn rhad ac am ddim am byth wedi'i dynnu i lawr gan ei fod yn gamarweiniol. Roedd yr Awdurdod yn fodlon ail-godi plac wedi'i eirio'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ohebiaeth bellach wedi dod i law oddi wrth yr asiant ar y mater hwn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo GORCHYMYN (PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO) (LLEFYDD PARCIO ODDI AR Y STRYD) 2015 - GORCHYMYN AMRYWIO RHIF 1 (2017) ac awdurdodi swyddogion i gyfarwyddo Cyngor Sir Penfro gychwyn ar y broses statudol angenrheidiol i roi effaith gyfreithiol i'r Gorchymyn hwnnw yn barod ar gyfer cychwyn tymor codi tâl ym meysydd parcio yr Awdurdod yn 2019.

10. Ymgynghori ar Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10

Dywedwyd bod Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiwygio yng ngoleuni'r 7 o nodau Llesiant a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y bwriad oedd dangos cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhoi arweiniad yn y maes hwn, a newid arferion ar lawr gwlad ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol. Hefyd roedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cyfle i ddiweddarau adrannau o Bolisi Cynllunio Cymru, cyflwyno polisiau newydd a symleiddio'r ddogfen. Oherwydd natur arwyddocaol y newidiadau i'r ddogfen, roedd Llywodraeth Cymru wedi llunio drafft ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Roedd ymateb y tri Parc Cenedlaethol yng Nghymru a argymhellwyd ynghlwm wrth yr adroddiad, a gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo hwn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc wrth yr Aelodau bod croeso iddynt gyflwyno sylwadau. Fodd bynnag gan mai dydd Gwener oedd y dyddiad olaf i gyflwyno sylwadau, byddai'r sylwadau hynny na ellid eu hymgorffori yn yr ymateb ar y cyd yn cael eu cynnwys ar ddalen ar wahân



fel sylwadau a wneir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

Roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r ymateb, gan gytuno bod y ddogfen yn rhy gymhleth, yn anodd i'w defnyddio ac yn cyflwyno mwy o ansicrwydd ac amwysedd. Gwnaeth yr Aelodau nifer o sylwadau ychwanegol, ynghylch llygredd golau, effaith mannau gwyrdd awyr agored ar iechyd meddwl a lles; pwyntiau gwefru ceir, a lleoliad datblygiadau mewn aneddiadau sy'n hygyrch drwy dulliau di-gar. Byddai manylion rhai o'r sylwadau hyn yn cael eu darparu gan yr Aelod perthnasol a'u cynnwys fel cyd-ymateb gan APCAP. Hefyd awgrymodd yr Aelodau bod llythyr yn mynd gyda'r ymateb yn gofyn am i'r ddogfen gael ei had-drefnu ac yn destun ymgynghoriad pellach.

PENDERFYNWYD bod ymateb y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y drafft o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 yn cael ei gyflwyno, yn ogystal â'r pwyntiau ychwanegol a godwyd yn y cyfarfod fel ymateb ar wahân gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

[Gadawodd y Cyngorydd M Evans y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

11. Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi penderfynu yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Chwefror i sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol leol, yn amodol ar i'r dogfennau perthnasol gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan yr Aelodau cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer cofrestru. Roedd fersiynau drafft o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth a Chyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth ynghlwm wrth yr adroddiad am gymeradwyaeth yr Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am benodi dau Aelod o'r Awdurdod yn Ymddiriedolwyr. Byddai'r Ymddiriedolwyr sy'n weddill yn cael eu penodi wedyn gan yr Aelod-Ymddiriedolwyr, yn amodol ar broses gyfsweld.

Gofynnodd un Aelod am sicrwydd ynghylch y rheolaethau fyddai gan yr Awdurdod dros yr Ymddiriedolaeth os nad oedd mwyafrif yr Ymddiriedolwyr yn Aelodau o'r Awdurdod, fel yr argymhellwyd. Eglurodd y Rheolwr Cyllido Allanol y byddai cyfran o'i hamser yn cael ei secondio i'r Ymddiriedolaeth, a phetai'r Awdurdod yn atal hynny, ac adnoddau eraill y byddai'n eu darparu, na fyddai'r Ymddiriedolaeth yn gallu cyflawni ei waith. Yn ogystal, roedd dibenion yr ymddiriedolaeth fel y'u nodwyd yn y cyfansoddiad yn cyd-fynd â dibenion yr Awdurdod, a byddai'r prosiectau a gyflwynir i'r Ymddiriedolaeth am gyllid yn brosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod. Ychwanegodd y byddai'r Comisiwn Elusennau yn annhebygol



o edrych yn ffafriol ar greu Ymddiriedolaeth nad oedd ganddi gyfradd uchel o annibyniaeth oddi wrth yr Awdurdod.

Roedd Aelodau eraill yn pryderu na fyddai'r Amcanion a nodir yn y cyfansoddiad yn caniatáu codi arian ar gyfer pob un o'r prosiectau y dymunai'r Awdurdod eu cefnogi. Fodd bynnag, sicrhaodd y Swyddog yr Aelodau bod Geldards, Cyfreithwyr yr Awdurdod, wedi craffu ar y dogfennau, a'u bod wedi dweud bod yr Amcanion yn ddigon eang i ganiatáu ariannu amrediad eang o brosiectau a grybwyllwyd yn benodol wrthynt. Hefyd gofynnwyd cwestiwn ynghylch brandio'r Ymddiriedolaeth, ac atebodd y swyddog y byddai adroddiad ar brandio yn cael ei ystyried yn nes ymlaen yn y cyfarfod. Fodd bynnag, roedd y swyddogion yn ffafrio hunaniaeth unigryw, sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdod.

Gan droi at enwebiadau ar gyfer Ymddiriedolwyr, cynigiwyd ac eiliwyd enwau tri Aelod : Mrs G Hayward, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd P Harries. Gan mai dim ond dwy swydd oedd ar gael, cynhaliwyd pleidlais gudd, a phenodwyd Mrs Hayward a'r Cynghorydd Harries. Ychwanegodd y Rheolwr Cyllido Allanol bod recriwtio'r pedwar Ymddiriedolwr sy'n weddill yn parhau, a gofynnwyd i'r Aelodau dynnu sylw'r rhai y barnent fyddai'n cyd-fynd â phroffil y rôl, i'r swyddi gwag hyn.

PENDERFYNWYD:

- a) Cymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r Cyfansoddiad
- b) Penodi Mrs G Hayward a'r Cynghorydd P Harries yn Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth; a
- c) Bod cais yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau i gofrestru Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

[Nid oedd y *Cynghorydd S Yelland yn bresennol ar gyfer y bleidlais ar yr eitem ganlynol.*]

12. Brandio'r Parc Cenedlaethol

Gofynnwyd am i'r Aelodau gymeradwyo greu hunaniaeth brand pwrpasol ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ar wahân i'r brand corfforaethol presennol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dywedwyd bod nifer o resymau allweddol dros wneud hyn, gan gynnwys greu Ymddiriedolaeth Elusennol (*y cyfeirir ato yng Nghofnod 11*), annog mwy o farchnata'r Parc Cenedlaethol yn ogystal â'r brandio ar y dillad fyddai'n cael eu gwerthu fel rhan o'r cytundeb nawdd y cytunwyd arno rhwng y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol a Columbia Clothing. Y bwriad oedd ymgysylltu â thrawstoriad eang o randdeiliaid wrth ddatblygu'r brand, a byddai cyfle gan yr Aelodau i gyfrannu at y broses hon.



Roedd rhai Aelodau yn pryderu am gostau posibl ymarferiad o'r fath. Fodd bynnag, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd iddynt, gan nad oedd unrhyw fwriad i ail-frandio'r Awdurdod, y byddai'r costau yn isel iawn ac yn bennaf yn gostau o ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwaith o greu brand ar wahân ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

13. Diweddariad ar Waredu Eiddo'r Awdurdod ar Stryd Hir yn Nhrefdraeth

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod yn eu cyfarfod fis Mawrth 2018 wedi penderfynu i fwrw ymlaen â'r trafodaethau gyda Chyngor Tref Trefdraeth (Y Cyngor) ar gyfer caniatáu prydles galwedigaethol newydd hen safle gweithredol yr Awdurdod ar Stryd Hir Trefdraeth dan yr egwyddor Trosglwyddo Ased Cymunedol.

Roedd yr adeilad ar gau ar hyn o bryd i'r cyhoedd, ond roedd swyddogion wedi dod i gytundeb cynnar gyda'r Cyngor i hwyluso ailagor yr eiddo dan eu rheolaeth lwyr hirdymor. I grynhoi, byddai telerau'r brydles arfaethedig yn golygu bod yr adeilad yn trosglwyddo i reolaeth y Cyngor am dymor o 30 mlynedd ar delerau atgyweirio ac yswirio llawn am rent rhad. Byddai'r defnydd a ganiateir o'r adeilad yn gyfyngedig ac wedi'i neilltuo i nodau ac amcanion cymunedol y Cyngor, ac roedd yr adroddiad hefyd yn nodi darpariaethau aralliad yn atal aseiniu'r brydles i unrhyw drydydd parti. Fodd bynnag, dywedwyd yn y cyfarfod y gallai rhai o'r sefydliadau di-elw y gallai Cyngor Tref Trefdraeth fod yn dymuno eu lletya angen rhyw fath o is-brydles, a gofynnwyd felly am ddiwygio'r ddarpariaeth hon i ganiatáu is-osod rhannau o'r adeilad i sefydliadau di-elw cyn belled ag y ceir caniatâd y landlord.

Gan gefnogi'r argymhelliad diwygiedig, dywedodd un Aelod bod y Cyngor Tref mewn trafodaethau gyda nifer o sefydliadau a rhyw 70 o wirfoddolwyr. Fodd bynnag byddai'r dogfennau oedd yn ofynnol i wneud hyn yn cymryd amser i'w llunio. Yn y cyfamser, roedd gwaith yn mynd rhagddo ynglŷn â lledaenu llenyddiaeth yn y dref mewn pryd ar gyfer y tymor i ddod.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r Swyddogion i fwrw ymlaen â'r dogfennau prydles newydd cyn adeilad gweithredol yr Awdurdod sy'n cynnwys 1 a 2 Bythynnod y Banc, Stryd Hir, Trefdraeth i Gyngor Tref Trefdraeth ar y telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad oedd yn amlygu egwyddor ac ysbryd Trosglwyddo Ased Cymunedol gyda'r cafeat y dylai Cyngor Tref Trefdraeth gael ei ganiatáu i is-osod rhan o'r safle cyn belled â bod unrhyw ddarpar is-brydlesai yn ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus lleol di-elw, ac yn amodol ar ganiatâd yr Awdurdod fel y Prif Brydlesydd na chaiff ei atal yn afresymol.



14. Penodi Swyddog Diogelu Data

Dywedwyd bod gan yr Awdurdod ddyletswydd ddeddfwriaethol fel Awdurdod cyhoeddus o dan ofynion y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data fyddai'n dod i rym ar 25 Mai 2018, i benodi Swyddog Diogelu Data.

Nodwyd rôl Swyddog Diogelu Data yn yr adroddiad, yn ogystal â chyingor ynghylch pwy allai gael ei benodi i'r swydd honno.

Ar ôl adolygu'r opsiynau, cynigiwyd bod y Rheolwr Technoleg Gwybodaeth presennol, Paul Funnell, yn cael ei benodi i'r rôl Swyddog Diogelu Data, a hefyd nodwyd y profiad oedd ganddo oedd yn ei wneud yn addas ar gyfer y rôl. Gan mai rôl newydd oedd hon, cynigiwyd cychwyn ar adolygu pa mor effeithiol yw'r trefniant hwn cyn pen 12 mis i'r penodi.

Wrth wneud yr argymhelliad, talodd y Prif Weithredwr deyrnged i'r gwaith a wnaed gan Paul a Mair Thomas, Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod, wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth.

PENDERFYNWYD penodi Paul Funnell yn Swyddog Diogelu Data ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

15. Cronfa Tirweddau'r Dyfodol

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £275,000 yn ystod 2017 i gefnogi gwaith Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru, y dyrannwyd yr arian hwn i'r Awdurdod i'w reoli ar ran y partneriaid yn y Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru. Roedd yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cadw'r arian hwn yn ei gronfeydd wrth gefn.

Fis Rhagfyr 2017 derbyniodd yr Awdurdod lythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer dyrannu'r arian hwn, a nodwyd y meysydd blaenoriaeth hyn yn yr adroddiad. Roedd y llythyr hefyd yn nodi bod angen dyrannu'r arian hwn ar weithgareddau oedd â chytundeb y tirweddau dynodedig, mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Roedd Adran 77 o Safonau Ariannol yr Awdurdod yn nodi bod gofyn i daliadau grant o fwy nag £20,000 gael cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, er bod yr Awdurdod yn cadw'r Gronfa Tirweddau'r Dyfodol, roedd dyrannu'r arian yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'r Tirweddau Dynodedig eraill. Er mwyn caniatáu i arian Cronfa Tirweddau'r Dyfodol gael ei ddsbarthu yn brydlon ac yn effeithiol,



cynigiwyd felly bod yr Awdurdod yn atal y rheol sefydlog ynglŷn â grantiau sy'n fwy nag £20,000 yn unig mewn perthynas â dyrannu'r gronfa hon.

PENDERFYNWD cymeradwyo amrywio'r Safonau Ariannol mewn perthynas â'r Gronfa Tirweddau'r Dyfodol.

16. Unrhyw fater arall

Caniataodd y Cadeirydd i'r materion canlynol gael eu codi:

a) Seminar Goleuni

Dymunodd yr Aelodau ddiolch i'r swyddogion am drefnu'r seminar ar y cyd rhwng swyddogion ac Aelodau ar "Taflu goleuni ar ein awyr dywyll", a gynhaliwyd ar 9 Mai, gan ofyn a oedd cyfleoedd i godi mwy o ymwybyddiaeth o'r pwnc hwn drwy ddatganiadau i'r wasg neu ddulliau eraill o gyhoedduswydd.

Cytunodd y Prif Weithredwr, gan ddweud y byddai cyhoedduswydd yn cael ei roi i unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yn y rhwydwaith o safleoedd oedd yn bodoli yn y Parc Cenedlaethol. Ychwanegodd hefyd y bwriedir defnyddio'r pwnc hwnnw fel pwnc ar gyfer Seminar y Cynghorau Cymuned a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

NODWYD.

b) Recriwtio Parcmyn

Dywedodd un Aelod ei fod wedi nodi'r hysbyseb yn ddiweddar am Barcmon y De gan ofyn a allai recriwtio yn y dyfodol ddigwydd yn gynharach yn y flwyddyn fel y gallai Parcmyn tymhorol fod yn eu swyddi dros Wyliau'r Pasg a Chalan Mai.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod yr hysbyseb yn ddiweddar yn hysbyseb am swydd barhaol, oedd wedi codi yn sgîl ymddiswyddiad y deiliad swydd presennol oedd wedi sicrhau swydd arall. Fodd bynnag, roedd dau Barcmon Tymhorol wedi'u penodi yn ddiweddar, un ar gyfer gogledd y sir a'r llall ar gyfer de'r sir, ac roeddent i gychwyn ar eu swyddi ar 4 Mehefin ar gontract pedwar mis. Gellid adolygu'r dyddiad cychwyn ar gyfer y swyddi hyn yn y dyfodol.

NODWYD.

